1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# DATGANIAD PRIFYSGOL ABERYSTWYTH YNGHYLCH CAETHWASIAETH FODERN A MASNACHU POBL 2022

## CRYNODEB

Rydym wedi ymrwymo i wella ein harferion er mwyn gwrthsefyll y camfanteisio sy'n digwydd yn sgil caethwasiaeth a masnachu pobl. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi ymrwymo i ddeall risgiau caethwasiaeth fodern a sicrhau na cheir unrhyw gaethwasiaeth fodern yn ein busnes ni ein hunain nac yn ein cadwyni cyflenwi.

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (fel y'i diwygiwyd wedi hynny), a dyma ein datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31/07/2022. Yn ogystal, mae'r datganiad hwn yn nodi ymrwymiadau'r Brifysgol mewn perthynas â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

## RHAGARWEINIAD GAN GYNGOR Y BRIFYSGOL

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac mae methiant y Wladwriaeth i'w hatal, ac i amddiffyn y rheini sy'n dioddef yn ei sgil, yn torri hawliau dynol sylfaenol. Mae iddi lawer ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfod a llafur gorfodol, a masnachu pobl. Yr hyn sy'n gyffredin iddynt oll yw bod rhyddid unigolyn yn cael ei gyfyngu gan unigolyn arall, a hynny er mwyn camfanteisio arnynt er elw personol neu fasnachol.

**Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (fel y'i diwygiwyd wedi hynny), a dyma ein datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31/7/2022.**

## STRWYTHUR SEFYDLIADOL

Yn unol â Siarter Frenhinol Atodol Prifysgol Aberystwyth, y Cyngor yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol" ac mae'n gyfrifol am "benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol ac am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, a materion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion".

Yr Is-Ganghellor, sef prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifo'r sefydliad, sydd â'r cyfrifoldeb am reolaeth weithredol feunyddiol y Brifysgol - ac er y bydd yn cadw arolygaeth strategol gyffredinol, bydd hefyd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau gweithredol i'r swyddogion priodol.

## EIN CADWYNI CYFLENWI

Mae'r Brifysgol yn gwario dros £38.5m ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith heblaw am gyflogau. Mae'r Brifysgol yn diwallu ei hanghenion mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan, o ran creu budd nid yn unig i'r sefydliad ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan wneud cyn lleied â phosibl o niwed i'r amgylchedd.

Yn fras, gellir rhannu cadwyni cyflenwi'r Brifysgol yn bum prif gategori, sef:

• Nwyddau Traul a Chyfarpar Labordai
• Adnoddau Llyfrgell
• Gwasanaethau Proffesiynol
• Cyfarpar a Gwasanaethau TGCh
• Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith Ystadau.

Y prif gategorïau lle ceir risgiau perthnasol yw nwyddau swyddfa, nwyddau traul labordai, cyfarpar TGCh, a rhai o wasanaethau'r ystadau, er enghraifft gwasanaethau glanhau a ddaw o ffynonellau allanol o bryd i'w gilydd.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn aelod o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (HEPCW). Mae'r Consortiwm yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â'r consortia pwrcasu cyfatebol i brifysgolion eraill Prydain a grwpiau cenedlaethol, a cheir perthynas flaengar a llwyddiannus rhyngddynt.

Mae'r rhaglen gyd-gontractio yn cynnig portffolio cydweithrediadol cynhwysfawr ac aeddfed, sy'n cynnwys rhai o'r categorïau uchel eu risg a restrir uchod.

Mae mwyfwy o'n cyflenwyr yn y categorïau uwch eu risg hyn wedi ymrwymo i God Sylfaenol y Fenter Masnachu Moesegol (Ethical Trading Initiative) ac mae Consortia Pwrcasu Prifysgolion Prydain yn gweithio i sicrhau bod y cyflenwyr sy'n weddill yn y categorïau hyn yn ymuno â hwy. Seiliwyd Cod Sylfaenol yr ETI ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) ac mae'n god arferion llafur a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n mynnu:

1. Bod cyflogaeth yn rhywbeth i'w ddewis yn rhydd;
2. Y dylid parchu’r rhyddid i ymgysylltu a’r hawl i gydfargeinio;
3. Bod amodau gwaith yn ddiogel a glanwaith;
4. Na ddefnyddir llafur plant;
5. Y dylid talu cyflog byw;
6. Nad yw oriau gwaith yn ormodol;
7. Na ddylid gwahaniaethu ar unrhyw sail;
8. Bod cyflogaeth reolaidd yn cael ei darparu;
9. Na chaniateir triniaeth lem nac annynol.
10. Bod polisi ysgrifenedig ar gyflogaeth foesegol yn cael ei lunio;
11. Bod polisi ysgrifenedig i gefnogi chwythwyr chwiban yn cael ei lunio;
12. Bod aelodaeth o undebau llafur yn cael ei chefnogi.

**Cyfarpar TGCh**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan o nifer o gytundebau pwrcasu cydweithrediadol ar gyfer cyfarpar TGCh.

Trwy'r cytundebau pwrcasu cydweithrediadol hyn, mae'r Brifysgol yn cefnogi egwyddorion Electronics Watch, sef mudiad monitro annibynnol sy'n gweithio i ennill parch i hawliau gweithwyr yn y diwydiant electroneg byd-eang, trwy gyfrwng pwrcasu cyhoeddus cymdeithasol-gyfrifol yn Ewrop. Rydym yn cydweithio â'n cyflenwyr dan gontract i gyflwyno ac ymrwymo i drefniadau monitro newydd os yw codau ymddygiad corfforaethol a pholisïau ac arferion archwilio cymdeithasol yn methu o ran eu tryloywder a’u

heffeithiolrwydd.

**EIN POLISÏAU AR GAETHWASIAETH A MASNACHU POBL**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'n busnes.

Yng ngoleuni'r rhwymedigaeth i adrodd ar fesurau i sicrhau na cheir caethwasiaeth yn unrhyw ran o'n busnes na'n cadwyn gyflenwi, byddwn yn adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer y gweithle er mwyn asesu pa mor effeithiol ydynt o ran canfod a mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i gaethwasiaeth fodern. Bydd y Brifysgol hefyd yn ystyried y polisïau hynny sy'n cael eu datblygu gan y llywodraeth ynghylch cadwyni cyflenwi moesegol.

Bydd ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer y gweithle yn dangos ein hymrwymiad i weithredu'n foesegol a chydag uniondeb ym mhob un o'n cysylltiadau busnes, ac i gyflwyno a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i sicrhau na cheir caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn unrhyw ran o'n cadwyni cyflenwi.

**PROSESAU DIWYDRWYDD DYLADWY A'U HEFFEITHIOLRWYDD**

Rydym wedi rhoi mentrau ar waith i gyflwyno systemau a fydd yn:

- Canfod ac asesu meysydd lle ceir risg bosibl yn ein cadwyni cyflenwi
- Lleihau'r risg bod caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi
- Cadw golwg ar feysydd lle ceir risg bosibl yn ein cadwyni cyflenwi
- Diogelu unigolion sy'n chwythu'r chwiban.

Mae'r Brifysgol wedi nodi'r prif gategorïau risg ym meysydd ein gwariant ac wedi rhoi prosesau yn eu lle i sicrhau y bydd yr holl ymarferion caffael newydd yn mynnu bod yr holl ddarpar gyflenwyr yn cadarnhau eu bod yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern (2015).

Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi cymryd camau i gyflwyno'r cyflog byw gwirfoddol yn llawn, ac wedi cael ei hachredu'n gyflogwr Cyflog Byw er 2018.

**HYFFORDDIANT**

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth drwyadl o risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi a'n sefydliad, rydym wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith ein staff ynglŷn â chaethwasiaeth fodern a thorri hawliau dynol. Mae'r staff sy'n gweithio ym maes caffael wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar gaffael a chyflenwi moesegol.

**Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi**

Yn 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru God Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, er mwyn sicrhau bod holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cymryd camau i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol ac i sicrhau bod gweithwyr ymhob rhan o'r gadwyn gyflenwi yn cael eu trin yn deg. Mae'r Brifysgol wedi llofnodi'r Cod Ymarfer hwn, gyda'r bwriad o gydymffurfio â 12 ymrwymiad a gynlluniwyd i ddileu caethwasiaeth fodern a chefnogi arferion cyflogaeth moesegol.

Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i roi sylw i'r 12 ymrwymiad sydd yn y Cod Ymarfer. Hyd yma

mae 9 ymrwymiad wedi'u cwblhau ac mae’r ymrwymiadau isod wedi’u cwblhau'n rhannol:

- Disgwyl i'n cyflenwyr ymrwymo i'r Cod Ymarfer hwn er mwyn cynorthwyo i sicrhau bod arferion cyflogaeth moesegol yn cael eu defnyddio ledled y gadwyn gyflenwi

- Monitro arferion cyflogaeth ein cyflenwyr sydd â lefel uchel o risg, gan osod hon yn eitem arferol ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod / adolygiad rheoli contract

- Annog ein cyflenwyr dramor i dalu cyflog teg i'r holl staff ac i sicrhau bod staff sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig yn cael isafswm cyflog fan lleiaf.

**PERFFORMIAD O RAN EIN HAMCANION AR GYFER 2021-22**

Daeth y flwyddyn hon â heriau ychwanegol i'r tîm Caffael, yn enwedig wrth reoli'r gwaith gweinyddol ychwanegol ym maes caffael yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â rheoli'r heriau parhaus sy'n deillio o bandemig y Coronafeirws. Serch hynny, mae'r Brifysgol wedi gwneud cynnydd o ran yr amcanion a nodwyd, ac mae'r adran hon yn tynnu sylw at y llwyddiannau hynny:

*Troi’r gofrestr contractau yn un awtomatig. Byddwn yn cynnal adolygiad strategol llawn o atebion o ran y farchnad ar ffurf amrywiol atebion ar-lein, gan gynnwys mynd ati i ddatblygu systemau cofrestru/rheoli contractau sy’n gwbl awtomatig.*

Cwblhawyd adolygiad strategol llawn o’r atebion o ran y farchnad. Yn dilyn adolygiad strategol llawn o'r atebion a oedd ar gael o ran y farchnad yn ystod 2021/22, mae system gofrestru contractau wedi cael ei dewis ac mae’r gwaith o’i chyflwyno yn parhau. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amcanion ar gyfer 2022-23 a nodir isod.

*Datblygu ein hymwneud â NETpositive Futures i gynyddu nifer y cyflenwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r gwasanaeth a hyrwyddo materion cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi. Yn ail, datblygu rhyngwyneb rhwng y system cofrestru/rheoli contractau a ddewisir a NETpositive Futures ar gyfer data cynaliadwyedd.*

Cwblhawyd cymhariaeth lawn o'r gronfa ddata o gyflenwyr presennol â chronfa ddata NETpositive Futures eu hunain i ganfod unrhyw rai o gyflenwyr y Brifysgol nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Cysylltwyd â'r holl gyflenwyr â gwariant blynyddol dros £100K a'u hannog i gofrestru gyda NETpositive Futures. Mae’r contractau a hysbysebir ar ein system e-dendro hefyd bellach yn cynnwys geiriad sy'n manylu ynghylch disgwyliad y Brifysgol y dylai cyflenwyr llwyddiannus gofrestru gyda NETpositive Futures, er mwyn cynyddu nifer ein cyflenwyr sy’n cofrestru. Mae'r ymwneud â NETpositive Futures yn waith parhaus ac mae wedi'i gynnwys yn ein hamcanion ar gyfer 2022-23.

*Hyrwyddo rhagor ar yr angen am hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern a chyflwyno system sy'n caniatáu monitro a chanfod y gofynion am hyfforddiant diweddaru.*

Hyrwyddwyd hyfforddiant caethwasiaeth fodern drwy gwrs hyfforddi allanol a ddarparwyd gan y Gymdeithas Caffael Addysg Uwch (HEPA). Gan fod y cwrs hyfforddi wedi cael ei gynnal yn allanol, nid oedd modd monitro a chanfod yr angen am hyfforddiant diweddaru. Fodd bynnag, mae'r Rheolwr Caffael wedi

ymwneud â chydweithwyr sy'n gweithio ar y Prosiect Gwella Caffael i ganfod cyfleoedd technolegol posibl ar gyfer monitro. Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o gysylltu'r monitro ag adolygiadau arfarnu unigol y staff bob blwyddyn. Mae'r asesiadau o gyfleoedd yn parhau a byddant yn rhan o'r amcanion ar gyfer 2022-23.

*Cymryd camau pellach i ganfod cyflenwyr tramor y dylid eu cynnwys mewn monitro ac ymgysylltu parhaus, gan fanteisio ar gyngor gan arbenigwyr academaidd Prifysgol Aberystwyth.*

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno ateb sy'n seiliedig ar wybodaeth am y farchnad er mwyn cael gwell data ar farchnadoedd cyflenwi cenedlaethol a rhyngwladol. Pan fydd ateb sy'n seiliedig ar wybodaeth am y farchnad ar waith, bydd y gwaith yn dechrau i gael gwell dealltwriaeth o'r gronfa ddata gyfan o gyflenwyr, a gofynnir am gyngor gan arbenigwyr academaidd Aberystwyth o ran pa gyflenwyr i'w targedu yn gyntaf.

**EIN HAMCANION AR GYFER 2022-23**

Yn 2022-23 byddwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2021-22. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddeall ei chadwyni cyflenwi'n well ac i weithio tuag at gynyddu tryloywder a chymryd mwy o gyfrifoldeb tuag at y bobl sy'n gweithio o fewn y cadwyni hynny. I gyrraedd y nod hwn, byddwn yn:

- Cyflwyno'r gofrestr contractau a throsglwyddo'r holl gontractau presennol i'r system newydd.
- Parhau i ddatblygu ein hymwneud â NETpositive Futures drwy gymharu ein cronfeydd data o gyflenwyr bob blwyddyn a chanfod unrhyw fylchau. Cynyddu'r pwll o gyflenwyr sy'n cael eu targedu drwy gysylltu â'r holl gyflenwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd gyda NETpositive Futures ac sydd â gwariant blynyddol o dros £50K gyda'r Brifysgol.
- Cyflwyno system i fonitro hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern a system i nodi pryd y mae angen cynnal hyfforddiant diweddaru.
- Cynyddu gwybodaeth am gyflenwyr yn gyffredinol, gan dargedu'n benodol y cyflenwyr rhyngwladol hynny y codwyd pryderon o ran caethwasiaeth fodern yn eu cylch drwy ddefnyddio adnodd sy'n seiliedig ar wybodaeth am y farchnad. Hyrwyddo rhagor ar yr angen am hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern a chyflwyno system sy'n caniatáu monitro a chanfod y gofynion am hyfforddiant diweddaru.
- Cymryd camau pellach i ganfod cyflenwyr tramor y dylid eu cynnwys mewn monitro ac ymgysylltu parhaus, gan fanteisio ar gyngor gan arbenigwyr academaidd Prifysgol Aberystwyth.